# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 6, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 20 MEDI 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd L James (Is-gadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| T J Hennegan | P R Hood-Williams | L James |
| J W Jones | P M Meara | D Phillips |
| L V Walton | | |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Mike Hawes | Cyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog Adran 151 |
| Paul Beynon | Prif Archwiliwr |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Geraint Norman | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Williams | Swyddfa Archwilio Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, R A Clay, R V Smith, C Thomas a/ac T M White
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Mr A M Thomas

31 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

32 **ADRODDIAD SRA 260 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2015/16 - DINAS A SIR ABERTAWE.**

Cyflwynodd Geraint Norman, Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad SRA 260 Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2015/16 – Dinas a Sir Abertawe.  Nododd yr adroddiad faterion sy'n codi o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol i'r cyngor ei ystyried..

Ychwanegwyd bod yr archwilwyr wedi derbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 sef wythnos cyn y dyddiad cau o 30 Mehefin 2016 ac roeddent bellach wedi cwblhau rhan sylweddol o'u gwaith archwilio. Roedd cynllun yr archwiliad ar gyfer y cyngor a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016 yn nodi risgiau archwilio yr ystyrir eu bod yn sylweddol. Mae'r archwilwyr wedi ymgymryd â gwaith archwilio i asesu'r risgiau hyn a hefyd ystyried unrhyw risgiau newydd a geir.

Nodwyd crynodeb o risgiau'r archwiliad, y gwaith archwilio a wnaed a'r casgliadau yn Arddangosyn 1 yr adroddiad. Roedd Arddangosyn 2 yn cynnwys camddatganiadau yn natganiadau ariannol 2015/16. Roedd y llythyr sylwadau terfynol yn Atodiad 1, yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2, y camddatganiadau wedi'u cywiro yn Atodiad 3 a'r argymhellion allweddol sy'n codi o'r gwaith archwilio ariannol yn Atodiad 4.

Nodwyd mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am y pethau canlynol a gwnaeth Gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru/Cyfarwyddwr Adnoddau ymateb iddynt: –

- Darpariaeth drwg ddyled;
- Journal Approval;
- Awdurdodiad Oracle;
- Cyfrifo ar gyfer cyfalaf, yn benodol brisiadau adeiladau a thir.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

33 **ADRODDIAD SRA 260 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2015/16 - CRONFA BENSIWN.**

Cyflwynodd David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiad sy'n nodi'r materion i'w trafod o'r archwiliad ar ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn 2015/16 y mae'n rhaid adrodd amdanynt o dan SRA 260.

Mae Cynllun yr Archwiliad ar gyfer y Gronfa Bensiwn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol yr ystyriwyd eu bod yn rhai sylweddol. Mae'r archwilwyr wedi cynnal yr archwiliad i asesu'r risgiau hyn a hefyd ystyried unrhyw risgiau newydd sydd efallai wedi codi. Mae crynodeb o'r risgiau archwilio ariannol, y gwaith archwilio a wnaed a'r casgliad yn Arddangosyn 1.

Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddai'r Awdurdod wedi rhoi llythyr o gynrychiolaeth sy'n seiliedig ar yr hyn a nodwyd yn Atodiad 1.

Nodwyd yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2. Roedd y Gronfa Bensiwn wedi'i chynnwys ym mhrif datganiadau ariannol y cyngor ac felly y farn a nodwyd oedd yr hyn a gynigwyd ar gyfer prif ddatganiadau ariannol y cyngor a oedd yn cynnwys y Gronfa Bensiwn.

Amlinellwyd nad oes camddatganiadau yn y datganiadau ariannol a oedd yn parhau heb eu cywiro. Cafwyd nifer o gamddatganiadau a oedd wedi'u cywiro gan y rheolwyr ond roedd yr archwilwyr yn teimlo y dylid eu hamlygu oherwydd eu perthnasedd i gyfrifoldebau'r awdurdod dros y broses adrodd ariannol. Cafodd y rhain eu nodi gydag esboniadau yn Atodiad 3. Ni chafodd y newidiadau hyn unrhyw effaith ar Gyfrif y Gronfa ond roedd gwerth buddsoddiadau yn y Datganiad o'r Asedau Net wedi cynyddu £1,513,000. Cafwyd hefyd nifer o newidiadau cyflwyniadol

i'r datganiadau ariannol drafft a oedd yn deillio o'r archwiliad. Adroddwyd am faterion o bwys eraill a oedd yn codi o'r archwiliad hefyd.

Mae'r argymhellion allweddol sy'n deillio o'r archwiliad ariannol wedi'u nodi yn Atodiad 4. Roedd y rheolwyr wedi ymateb iddynt a bydd cynnydd yn cael ei wirio yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Lle byddai unrhyw gamau gweithredu dros ben, byddai'r archwilwyr yn parhau i fonitro cynnydd a'i gynnwys yn yr adroddiad y flwyddyn nesaf.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am y pethau canlynol, a gwnaeth Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru/Cyfarwyddwr Adnoddau ymateb iddynt: -

- Nifer yr aelodaeth;
- Cysoni cronfa ddata ALTAIR;
- Strategaeth Buddsoddi ar gyfer rheolwyr y gronfa;
- Ffïoedd sy’n daladwy i reolwyr y gronfa.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 34 ADRODDIAD ASESU CYDNERTHU ARIANNOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn nodi canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar asesiad cadernid ariannol Dinas a Sir Abertawe. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ystyried a oedd gan yr awdurdod drefniadau priodol i sicrhau a chynnal ei gadernid ariannol yn y tymor canolig.

Nododd yr aelodau'r pethau canlynol: -

- Yr arbedion a wneir gan yr awdurdod ond nodwyd nad oedd y rhain mewn meysydd a nodwyd eisoes gan yr Arweinydd;
- Polisïau'r cyngor o ran tlodi;
- Monitro'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
- Cadernid ariannol yr awdurdod;
- Gorwariant parhaus gan adrannau;
- Cyfuno gwasanaethau ag awdurdodau lleol eraill i arbed costau.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Adnoddau i gwestiynau'r aelodau a nodi'r anawsterau i greu arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn; sut roedd yr awdurdod yn gweithio'n wahanol o ganlyniad i leihau’r gweithlu; pwysau monitro'r gyllideb a goblygiadau gorwario; a lleihad mewn gwariant o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill.

## 35 ADRODDIAD OLRHAIN GWEITHREDU'R PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)

Darparwyd Adroddiad Olrhain Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth'.

## 36 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth’.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.05 pm

**CADEIRYDD**